Glan-llyn

# ***Cwestiynau Cyffredinol – COVID 19***

## ***Cyffredinol***

1. **Oes mesuriadau mewn lle gan y gwersyll i osgoi lledaenu COVID 19?**

   *Mae iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth i ni bob amser, a rydym yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, tra'n asesu'r sefyllfa'n ddyddiol er mwyn dilyn y cyngor mwyaf cyfredol. Rydym hefyd mewn ymgynghoriad cyson gyda arbenigwyr yn y diwydiant awyr agored ac yn cydweithio gyda ymgynghorwyr ymweliadau addysg. Dyma'r math o fesuriadau sydd mewn lle yn y gwersyll:*

   - *Staff yn profi am COVID yn wythnosol (profion LFT)*
   - *Pwyntiau hylendid dwylo ymhob mynedfa*
   - *Tymheredd ymwelwyr a staff yn cae ei gymryd yn ddyddiol*
   - *Ystafell hunan ynysu ar gael*
   - *Mygydau yn cael eu gwisgo tu mewn i adeiladau cyhoeddus*
   - *Gwersyll wedi ei rannu'n ddwy er mwyn osgoi cymysgu*
   - *Blociau Llety hunan arlwyo ar gael i swigod*
   - *Cydymffurfio â cynllun Profi Olrhain Diogelu*

2. **Oes Asesiad Risg a canllawiau ychwanegol ar gyfer ystyriaethau COVID-19?**

   *Oes, mae'r Urdd wedi cwblhau asesiadau risg ac yn ei adolygu yn gyson, ac wedi addasu ein canllawiau ar gyfer pob elfen o'n gwaith, er mwyn ystyried oblygiadau COVID-19.*

3. **Os oes, a yw'r asesiadau risg a'r canllawiau hyn ar gael i'w gweld pe bai angen?**

   *Oes mae modd gweld rhain os hoffech.*

***Gwersyll Glan-llyn***

## 4. Oes newidiadau yn y Gwersyll?

*Oes mae dipyn o newidiadau yn y Gwersyll er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir sustem unffordd o fewn y gwersyll, a chadwir at y pellter cymdeithasol o 2 fedr lle bo hynny'n ymarferol bosib. Darperir offer amddiffyn personol lle bo hynny'n angenrheidiol i staff ac/neu'n addas.*

## 5. Fydd y gwersyll yn llawn?

*Na, mae'r gwersyll yn rhedeg ar capasiti lawer llai ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau fod modd i grwpiau ymbellhau yn ddiogel. Mae'r gwersyll yn gweithredu mewn system 'swigen', gyda adeiladau llety, mannau ymgynnull a gweithgareddau wedi'u neilltuo ar gyfer pob grŵp neu 'swigen.'*

*Ar gyfer ymweliadau diwrnod i'r gwersyll, mae Glan-llyn wedi cael ei sefydlu'n Wersyll 1 a 2. Dim ond dwy ysgol/grŵp fydd yma ar unrhyw adeg, a mi fydd yr ysgolion wedi'u gwahanu i ardaloedd gwbl ar wahân ar gyfer cyfarfod, bwyta, gweithgareddau, symud o gwmpas y gwersyll a defnydd o wasanaethau cyhoeddus.*

## 6. Sut ydych chi'n paratoi cyn ac ar ôl cwsmeriaid?

*Ein polisi safonol yw sicrhau bod y Gwersyll yn cadw at safonau glendid o ansawdd da bob amser. Disgwylir i bob ymwelydd olchi/ diheintio eu dwylo yn rheolaidd a gwneud defnydd or pwyntiau hylendid dwylo yn ystod eu cyfnod yn y gwersyll. Mi fydd y tîm glanhau yn glanhau a diheintio pwyntiau cyswllt y Gwersyll yn rheolaidd. Byddem yn diheintio yn drylwyr rhwng ymwelwyr, gan gynnwys defnydd peiriant diheintio 'niwl' os angen.*

7. **Oes systemau mewn lle i sicrhau fod staff y gwersyll ddim efo Covid 19?**

   *Mae pob aelod o staff sydd yn gweithio yn y gwersyll wedi derbyn hyfforddiant safonol COVID-19. Ni fydd staff yn dod i'r gwaith os maent yn dangos unrhyw symptomau, neu'n byw gyda rhywun sydd yn dangos symptomau. Bydd pob aelod staff sydd ar safle'r gwersyll yn ystod eich ymweliad yn cael eu profi yn wythnosol gan ddefnyddio profion LFT gyda canllawiau clir mewn lle.*

8. **Fydd staff Glan-Llun yn gwisgo mygydau?**

   *Mae pob aelod o staff gyda mynediad at hylif diheintio a mwgwd. Bydd ein hyfforddwyr yn cario rhain efo nhw bob amser tra ar weithgareddau ond dim ond yn gwisgo mwgwd mewn unrhyw achos lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol.*

9. **Ydych chi'n cefnogi cynllun Profi Olrhain Diogelu (Test Trace Protect) y Llywodraeth?**

   *Ydyn, rydym yn cadw cofnod o bob ymwelwr am gyfnod o 3 wythnos er mwyn cefnogi POD.*

10. **Pa weithgareddau sydd ar gael?**

    *Mae nifer o weithgareddau arferol y gwersyll ar gael, ond gyda ambell newid i'r canllawiau er mwyn ystyried oblygiadau Covid-19.*

11. **Ydi'r pwll nofio ar agor?**

    *Ydi, mae'r pwll nofio ar agor ond dim ond ar gyfer un grŵp swigen ar y tro. Byddem yn annog gwersyllwyr i newid yn eu ystafelloedd. Pan nad yw hyn*

*yn bosib mae'r ystafelloedd newid ar gael i un grŵp swigen ar y tro, a bydd glanhau a diheintio rhwng defnyddwyr.*

**12. Ydych chi'n gallu darparu cymorth cyntaf?**

*Ydyn, bydd aelod o staff sydd a cymhwyster cymorth cyntaf ar alwad drwy gydol eich ymweliad. Mae'r holl offer PPE angenrheidiol ar gael yn y gwersyll er mwyn gweinyddu cymorth cyntaf mewn dull diogel. Bydd ein hyfforddwyr yn cario cymorth cyntaf ac offer PPE ar bob gweithgaredd, ac yn cario offer arbennig ar gyfer cymorth cyntaf difrifol.*

**13. Oes rhaid i mi ddod ag unrhyw beth ychwanegol i'r arfer?**

*Bydd, mi fydd gofyn i chi ddod ag ambell i beth ychwanegol i'r arfer. Ni fyddwn yn darparu dillad gwely na thywelion - gofynnir i bawb ddod â sach gysgu/ duvet a thywel. Gallwn ddarparu clustog gyda gorchudd, ond mae croeso i wersyllwyr ddod â chlustog eu hunain.*

*Gofynnwn i bawb dros 11 oed ddod a mwgwd efo nhw i'r gwersyll.*

**14. Oes trafnidiaeth ar gael?**

*Gofynnwn i grwpiau drefnu trafnidiaeth eu hunain lle'n bosib. Rydym yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran cludo pobl yn ein bysiau mini. Bydd angen i bawb wisgo mwgwd pan yn y cerbyd. Bydd angen cadw i un set wrth y ffenest pan nad yw cwsmeriaid yn teithio o fewn eu swigod. Byddem yn glanhau a diheintio y bws rhwng defnyddwyr.*

**Gweithgareddau tu allan i'r gwersyll**

15. **Ydi Glan-Llyn yn darparu gweithgareddau tu allan i'r Gwersyll, mewn ysgolion neu yn y gymuned?**

    *Ydym, mae Glan-Llyn wedi sefydlu Gwasanaeth Awyr Agored (GAA) ers sawl blynedd bellach, sydd yn arbenigo mewn darparu gweithgareddau anturus neu gweithgareddau dysgu tu allan i'r dosbarth. Mae'r GAA yn gallu cynnal gweithgareddau ar dir yr ysgol, neu mewn lleoliadau addas cyfagos, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.*

16. **Pa fath o weithgareddau sydd ar gael?**

    *Mae'r GAA yn cynnal amryw o weithgareddau oddi ar y safle, i gyd yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael yn eich ysgol/ ardal chi. Gall hyn fod yn weithgareddau dysgu yn yr awyr agored sydd yn canolbwyntio ar adeiladu tîm, cydweithio, codi hyder, iechyd a lles; neu'n weithgareddau mwy arbenigol fel cyfeiriannu, saethyddiaeth, gwylltgrefft, teithiau cerdded, sgiliau gwersylla ac alldeithiol. Pe bai eich lleoliad a canllawiau yn caniatáu, mi fedrwn gynnig gweithgareddau anturus yn eich ardal leol.*

17. **Sut ydych yn sicrhau fod y gweithgareddau yn ddiogel o ran oblygiadau COVID-19?**

    *Mae holl hyfforddwyr y GAA wedi derbyn hyfforddiant mewnol, sbesiffig ar gyfer COVID-19. Rydym wedi addasu gweithdrefnau ein gweithgareddau er mwyn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, gan bwysleisio pellter cymdeithasol a gwiriadau iechyd. Rydym yn adolygu rhain yn gyson. Mae gan bob hyfforddwr fynediad at PPE ac offer glanhau a diheintio i bob gweithgaredd.*